OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 Rhif 603 (Cy. 48)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2015

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *7 Mawrth 2015* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *10 Mawrth 20 15* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ebrill 20 15* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 128, 129, 130, a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**).

### Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2015 sy'n dod i rym ar 1 Ebrill 2015.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "y Rheoliadau Optegol" ("*the Optical Regulations*") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) 1997(**2**).

### Diwygio'r Atodlenni i'r Rheoliadau Optegol

**2.**—(1) Mae Atodlenni 1 i 3 i'r Rheoliadau Optegol wedi eu diwygio yn unol â darpariaethau canlynol y rheoliad hwn.

(2) Yn Atodlen 1 (codau llythrennau ac wynebwerthoedd talebau – cyflenwi ac amnewid) yng ngholofn (3) o'r tabl (wynebwerth taleb), yn lle pob swm a bennir yng ngholofn (1) o dabl 1 isod rhodder y swm a bennir mewn perthynas ag ef yng ngholofn (2) o'r tabl isod:

**Tabl 1**

| *(1) Swm Blaenorol* | *(2) Swm Newydd* |
|---|---|
| £38.30 | £38.70 |

(**1**) 2006 p. 42.
(**2**) O.S. 1997/818 fel y'i diwygiwyd.

| *(1) Swm Blaenorol* | *(2) Swm Newydd* |
|---|---|
| £58.10 | £58.70 |
| £85.10 | £86.00 |
| £192.20 | £194.10 |
| £66.10 | £66.80 |
| £84.00 | £84.80 |
| £109.00 | £110.10 |
| £211.30 | £213.40 |
| £196.80 | £198.80 |
| £55.80 | £56.40 |

(3) Yn Atodlen 2 (prismau, arlliwiau, lensys ffotocromaidd, sbectolau bach a sbectolau arbennig, a theclynnau cymhleth)—

(a) ym mharagraff 1(1)(a), yn lle "£12.40" rhodder "£12.50";

(b) ym mharagraff 1(1)(b), yn lle "£15.00" rhodder "£15.20";

(c) ym mharagraff 1(1)(c), yn lle "£4.20" rhodder "£4.30";

(d) ym mharagraff 1(1)(d), yn lle "£4.70" rhodder "£4.80";

(e) ym mharagraff 1(1)(e), yn lle "£63.00", "£55.80" a "£30.20" rhodder "£63.60", "£56.40" a "£30.50" yn eu trefn;

(f) ym mharagraff 1(1)(g), yn lle "£63.00" rhodder "£63.60";

(g) ym mharagraff 2(a), yn lle "£14.40" rhodder "£14.50"; a

(h) ym mharagraff 2(b), yn lle "£36.60" rhodder "£37.00".

(4) Yn lle Atodlen 3 (gwerthoedd talebau - trwsio), rhodder yr Atodlen 3 a nodir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

**Darpariaeth Drosiannol**

**3.** Dim ond mewn perthynas â thaleb a dderbynnir neu a ddefnyddir yn unol â rheoliad 12 neu reoliad 17 o'r Rheoliadau Optegol ar 1 Ebrill 2015 neu ar ôl hynny y mae'r symiau a amnewidir gan reoliad 2 yn gymwys.

*Mark Drakeford*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

7 Mawrth 2015

## YR ATODLEN

Rheoliad 2(4)

Atodlen 3 i'r Rheoliadau Optegol fel y'i hamnewidir gan y Rheoliadau hyn

"SCHEDULE 3

Regulation 19(2) and (3)

Voucher Values Repair

| *(1)* *Nature of Repair* | *(2)* *Letter of Codes - Values* | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | A | B | C | D | E | F | G | H | I |
| | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| Repair or replacement of one lens | 12.05 | 22.05 | 35.70 | 89.75 | 26.10 | 35.10 | 47.75 | 99.40 | 92.10 |
| Repair or replacement of two lenses | 24.10 | 44.10 | 71.40 | 179.50 | 52.20 | 70.20 | 95.50 | 198.80 | 184.20 |
| Repair or replacement of: the front of a frame | 12.35 | 12.35 | 12.35 | 12.35 | 12.35 | 12.35 | 12.35 | 12.35 | 12.35 |
| a side of a frame | 7.30 | 7.30 | 7.30 | 7.30 | 7.30 | 7.30 | 7.30 | 7.30 | 7.30 |
| the whole frame | 14.60 | 14.60 | 14.60 | 14.60 | 14.60 | 14.60 | 14.60 | 14.60 | 14.60" |

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) 1997 ("y Rheoliadau Optegol") sy'n darparu ar gyfer taliadau i'w gwneud drwy system dalebau o ran y costau yr aethpwyd iddynt gan gategorïau penodol o bersonau mewn cysylltiad â phrofion golwg a chyflenwi, amnewid a thrwsio teclynnau optegol.

Mae rheoliad 2 a'r Atodlen yn diwygio Atodlenni 1, 2 a 3 i'r Rheoliadau Optegol i gynyddu gwerth y talebau a ddyroddir tuag at y gost o gyflenwi ac amnewid sbectolau a lensys cyffwrdd, i gynyddu gwerthoedd ychwanegol y talebau ar gyfer prismau, arlliwiau, lensys ffotocromaidd a chategorïau arbennig o declynnau ac i gynyddu gwerth y talebau a ddyroddir tuag at y gost o drwsio ac amnewid teclynnau optegol.

Mae rheoliad 3 yn gwneud darpariaeth drosiannol mewn perthynas â thalebau a dderbyniwyd neu a ddefnyddiwyd cyn 31 Mawrth 2015.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.